

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Gwenda Roberts (Llansannan) a'r teulu ym marwolaeth ei thad, a hefyd Jonette Jones (Groes) a'r teulu ym marwolaeth ei chwaer yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion cynhesaf at Olwen Cottle (Henllan) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor yn ystod yr wythnos. Gweddiwn y bydd y dyddiau a'r wythnosau yma yn rhai lle bydd yn cryfhau ac yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd. Yn yr un modd parhawn i gofio am Myra Hughes (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd a hefyd Norman Hughes (Groes) fu yno am ychydig ddyddiau yn ddiweddar. Da deall bod Morfydd Roberts (Llanefydd) wedi cael dod adref erbyn hyn. Cyflwynwn bob un ohonynt hwythau a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd yn ddigon iddynt yn eu hangen.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Morfydd Williams (Southern House). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Gwilym ac Eirwen Foulkes (Llanfair) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

I ddod

- **Adnabod DAWN** - y sesiwn nesaf yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar Orffennaf 17eg.
- **Cwrs Ieuenctid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 30ain - Awst 3ydd. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-12 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 13eg – 16eg. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Souled Out (15+, myfyrwr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 18fed – 24ain. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- *Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).*

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Gorffennaf 2012

"O na bawn fel yr Iesu
yn maddau pob rhyw fai
'roedd cariad yn ymarllwys
o'i galon e'n ddi-drai." (Eleazer Roberts)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Un o ddigwyddiadau mawr yr wythnos hon oedd yr hyn a ddigwyddodd ym Melfast rhwng Martin McGuinness ac Elisabeth yr Ail. Ia, yr ysgwyd llaw a fu rhyngddynt. Eiliad fer, ond yn siarad cyfrolau am ddatblygiad y broses heddwch. Wedi'r holl benawdau sydd wedi bod dros y blynyddoedd am y bomiau a'r lladd, dyma bennawd o fath gwahanol er bod rhai yn amau gwerth yr arwydd yma o gymod. Mae'r creithiau yn ddyfnion iawn ar y ddwy ochr ac a fydd un ystum fer fel hyn o ysgwyd llaw yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl? Ydach chi'n edmygu'r ddau am ysgwyd llaw? Doedd hi ddim yn hawdd dwi'n siŵr.

A oes angen cymodi arnom ni? Dydw i ddim yn adnabod neb sy'n gallu dweud yn onest ei fod yn byw mewn cymod hefo pawb. Fe fydd yna densiwn yn y teulu, gyda chymdogion a chydweithwyr ar ryw adeg yn ein bywyd o hyd ac efallai y bydd yr holl beth yn dal i rygnu 'mlaen am flynyddoedd. Efallai ein bod wedi stopio trio gwneud rhywbeth am y peth neu'n meddwl fod y cyfrifoldeb i gymryd y cam cyntaf ar rhywun arall. Mae'r blynyddoedd yn pasio tra rydan ni yn aros iddyn nhw ddod atom ni! Mae Iesu yn adnabod ein cyflwr ac y mae'n rhoi cyngor i ni. Dyma i chi ddau ohonynt:

"Felly os wyt yn cyflwyno dy offrwm wrth yr allor, ac yno'n cofio bod gan dy frawd ryw beth yn dy erbyn, gad dy offrwm yno o flaen yr allor, a dos ymaith: myn gymod yn gyntaf â'th frawd, ac yna tyrd a chyflwyno dy offrwm." (Mathew 5:23-24)

A hefyd, *"Clywsoch fel y dywedwyd, 'Car dy gymydog a chasa dy elyn.' Ond yr wyf fi yn dweud wrthy ch: carwch eich gelynion, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid: felly fe fyddwch yn blant i'ch Tad sydd yn y nefoedd ..."* (Mathew 5:43-44)

Wrth i ni ymdrechu yn nerth yr Ysbryd Glân i faddau i'n gilydd a chymodi a'n gilydd rydan ni yn dod yn debyg i'n Tad nefol. Ac y mae angen ymdrech! Nid ar chwarae bach y daeth yr ysgwyd llaw yn realiti ac nid ar chwarae bach y mae Duw yn delio hefo ni. Mae Duw wedi ein caru ni pan oeddem yn elynion. Nid ysgwyd ein llaw mewn ystum o gymod ond ein caru ni! Dyma beth yw rhyfeddod! Go brin fod cariad rhwng y Frenhines a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon, ond dyna sydd yn wir amdanom ni a Duw. Wrth i ni dderbyn ei ras a'i faddeuant rydan ni hefyd yn gweld cymaint yw cariad Duw y Tad. Y mae Ef wedi ein cymodi ni ag Ef ei hun trwy'r groes. Y groes sydd yn chwalu'r muriau sydd rhyngom ac yn lladd yr elyniaeth sydd rhyngom a Duw a rhyngom a'n gilydd. (Effesiaid 2: 14-16) Boddi'r elyniaeth yng ngwaed y groes. Dyma lle y cawn ninnau'r nerth i ufuddhau i Iesu ac i ddod i garu.

Croeso i chi i oedfaon y dydd. Boed i ni brofi grym cymod, maddeuant a chariad Duw hefo'n gilydd heddiw.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, Cefn Meiriadog, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Adnabod DAWN** yn Ffestri Capel y Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Sadwrn • Bydd yr **Henaduriaeth** yn cyfarfod yng Nghapel y Fron, Dinbych – Pwyllgor Gwaith am 3.00, Cyfarfod yr Henaduriaeth am 4.30 a chyfarfod cyhoeddus i groesawu a llongyfarch blaenoriaid am 7.00.
- **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Bydd cinio cynnil yn Ffestri Capel Peniel yn dilyn yr oedfa gyda'r elw tuag at Apêl Guatemala.
- Sadwrn Bore Coffi a stondinau yn Eirianfa, Dinbych rhwng 10.00 a 12.00. Trefnir gan aelodau Capel Peniel.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac oedfa deuluol yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Gwener Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sadwrn Bore Coffi wedi ei drefnu gan blant Cefn Berain i godi arian tuag at Apêl Guatemala yn Neuadd Llanefydd am 10.30. Gwerthfawrogiwr unrhyw roddion.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau